LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Archif Sgrin a Sain
Screen and Sound Archive

Gwasanaeth Masnachol

Nod Archif Sgrin a Sain yw gwarchod, dathlu a hyrwyddo etifeddiaeth sain a delweddau symudol Cymru. Mae'r Archif yn rhan o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Croesewir pob cyfle i sicrhau bod delweddau o'r casgliad ar gael i'r cyhoedd, ac mae cynnwys darnau o hen ffilmiau mewn cynyrchiadau teledu yn ffordd effeithiol o wneud hyn.

'Rydym yn falch iawn, felly, o allu cynnig gwasanaeth i gwmnïau cynhyrchu drwy ddarparu clipiau o ffilmiau pan fo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gofynnwn yn garedig i ymchwilwyr a chynhyrchwyr gofio mai nod pennaf yr Archif yw diogelu'r deunydd sydd yn ein gofal. Mae'r ffaith mai Archif ffilm ydym, yn hytrach na llyfrgell, yn gosod cyfyngiadau anorfod ar ein gwasanaeth masnachol, sydd yn golygu nad yw bob amser yn bosibl i ni ddarparu deunydd yn sydyn ac nad yw popeth sydd yn ein casgliad ar gael i'w ddefnyddio (gweler isod).

Ymchwilio: opsiynau i'r cwsmer

1. Fel rheol gall staff yr Archif awgrymu i ymchwilwyr pa ffilmiau yn y casgliad sy'n berthnasol i ymholiad penodol a dderbynnir drwy lythyr, ffacs, e-bost neu alwad ffôn. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw gwneud ymchwil manwl (e.e. canfod delweddau neu olygfeydd penodol nad ydynt eto yng nghatalog yr Archif).

2. Croesewir ymchwilwyr sydd yn awyddus i wylio deunydd yn ystafell wylio yr Archif (rhaid trefnu ymlaen llaw a rhoi gwybod i'r staff beth yw natur eu hymchwil fel y gellir paratoi ar eu cyfer).

3. Mewn rhai achosion gellir benthyca copi DVD i'r cwsmer o'r deunydd ymchwil.

Darparu deunydd ar gyfer rhaglenni: canllawiau cyffredinol

1. Dim ond deunydd sydd wedi ei ddiogelu (h.y. deunydd y mae iddo gopi cadwraeth a phrint gwylio) fydd ar gael i gynhyrchwyr.

2. Mae nifer o ffilmiau yn yr Archif ar gael ar ffurf Digibeta neu ffeil ddigidol, ac mae gan yr Archif gyfarpar i wneud copïau cyfyngedig yn ôl y galw. Mewn rhai achosion mae modd i'r cwsmer gael benthyg copi ffilm a threfnu ei hun i wneud trosglwyddiad telecine.

3. Os bydd y cwsmer eisiau defnyddio ffilm sydd heb ei diogelu, mewn rhai achosion gall y cwsmer gytuno i dalu am y gwaith cadwraeth sydd angen ei wneud (fel arfer, gwneud copi cadwraeth a phrint gwylio o'r ffilm dan sylw ar ran yr Archif, mewn labordy o ddewis yr Archif).

Sut i ddefnyddio'r Gwasanaeth Masnachol

Mae holl amodau benthyg a defnyddio deunydd o gasgliad yr Archif Sgrin a Sain i'w cael ym mhob cytundeb a lunnir gyda'i chwsmeriaid, ond er gwybodaeth fe grynhoir rhai o'r amodau isod.

Gellir trefnu dau fath o fenthyciad o gasgliad yr Archif:

1. **Copi gwylio:**
   Benthyg copi DVD o ddeunydd at ddibenion gwylio ac ymchwil yn unig.

2. **Copi defnydd:**
   Benthyg copi o ddeunydd ar gyfer ei gynnwys mewn rhaglen i'w darlledu.

Cytundebau

Mae'r ddau fath o fenthyciad a nodir uchod yn amodol ar gytundebau o ddau fath gwahanol, sef Cytundeb Gwylio a Chytundeb Defnydd (gweler isod).

1. **Cytundeb Gwylio** (ar gyfer gwylio ac ymchwil)

   Cyn y rhyddheir deunydd ar fenthyg ar gyfer gwylio ac ymchwil rhaid i'r cwsmer ddychwelyd copi o'r cytundeb hwn, wedi'i arwyddo a'i ddyddio. Yna bydd yr Archif yn anfon y copi gwylio i'r cwmni.

   SYLWER: hawl i wylio ar gyfer ymchwil yn unig a roddir drwy'r cytundeb hwn.

2. **Cytundeb Defnydd** (e.e. ar gyfer cynnwys deunydd mewn rhaglen i'w darlledu)

   Cyn y rhyddheir deunydd ar fenthyg i'w gynnwys mewn darllediad, rhaid i'r cwsmer ddychwelyd copi o'r cytundeb hwn i'r Archif, ar ôl darllen y cytundeb a'r atodlen yn drwyadl.

   Nid oes hawl gan gwmni i ddarlledu cynhyrchiad sy'n cynnwys deunydd o'r Archif heb i'r Archif yn gyntaf dderbyn copi, wedi ei arwyddo a'i ddyddio gan y cynhyrchydd, o'r cytundeb hwn.

NODER: Gall methu dychwelyd y deunydd erbyn yr amser penodedig arwain at ddirwy.

Bydd y cytundeb yn nodi bod rhaid rhoi cydnabyddiaeth ar y sgrin, fel arfer i: Archif Sgrin a Sain, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Hawlfraint

Pan fo cwmni am ddefnyddio deunydd y mae ei hawlfraint yn perthyn i drydydd parti, rhaid i'r cwsmer sicrhau caniatâd perchennog yr hawlfraint a darparu prawf ysgrifenedig o hynny i'r Archif, cyn y gellir rhyddhau'r deunydd. Bydd yr Archif yn darparu enwau a chyfeiriadau deiliaid hawlfraint os ydynt yn hysbys. Bydd y cwsmer hefyd yn talu unrhyw ffioedd hawlfraint a/neu freindal all fod yn daladwy i drydydd parti. Mae'r taliadau hyn fel arfer yn ychwanegol at ffioedd yr Archif.

Darlledu

Rhaid i'r cwsmer hysbysu'r Archif cyn y dyddiad darlledu faint yn union o ddeunydd yr Archif a ddefnyddir yn y rhaglen a nodir yn y cytundeb, ac yna fe anfonebir y cwsmer.

Mae Archif Sgrin a Sain yn cadw'r hawl:

1. i fynnu copi o'r cynhyrchiad gorffenedig i'w gadw gan yr Archif neu i'w fenthyg i'r Archif er gwybodaeth;

2. i fynnu blaendal sylweddol cyn darparu gwasanaethau a/neu ddeunydd;

3. i godi taliadau ychwanegol mewn rhai achosion, e.e. ar gyfer ymholiadau brys neu dorri cytundeb.

Dirwy

Gall methu cydymffurfio ag amodau'r cytundeb arwain at ddirwy.

Manylion cyswllt

Archif Sgrin a Sain
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

Ffôn: 01970 632 828
E-bost: sgrinasain@llyfrgell.cymru
www.llyfrgell.cymru

Canllaw Ffioedd

Nid yw'r ffïoedd yn cynnwys TAW, costau pacio a phostio/cludo, na chostau ychwanegol megis labordy ac ati. Nid yw'n cynnwys ffïoedd a allai fod yn ddyledus i 3ydd partïon a deiliaid hawlfraint.

Ffi Trwyddedu

(Anfasnachol e.e. amgueddfeydd, treftadaeth a defnydd cymunedol)

Cyfnod	Uchafswm hyd y deunydd	
	15 munud	30 munud
1 Mis	£25.00	£30.00
6 Mis	£35.00	£40.00
Blwyddyn	£50.00	£60.00
Tymor Hir	£70.00	£100.00

Darlledu

Codir ffi fesul eiliad, gyda lleiafswm defnydd

Teledu Digidol / Cebl / Lloeren
Defnydd cyfyngedig – 5 mlynedd
Cyfyngir i un sianel
(Lleiafswm defnydd 30 eiliad)

Cymru / Rhanbarthol	£5.00
Y Deyrnas Unedig	£7.00
Ewrop	£12.00
UDA / Canada	£15.00
Byd-eang	£18.00

Gellir ystyried gostyngiad i archebion dros £1,000

Gwe-gyfryngol (uchafswm defnydd – 35 diwrnod)	15% o'r ffi defnydd
Sain	½ pris deunydd gweledol

Pecynnau
Cyfyngiad i aml-sianel, a weithredir gan un darlledwr
(Lleiafswm defnydd 30 eiliad)

Pecyn DU – 5 mlynedd yn cynnwys darlledu ar deledu digidol a llifo ar y we yn y DU	£9.50
Pecyn DU – 10 mlynedd yn cynnwys darlledu ar deledu digidol a llifo ar y we yn y DU	£16.00
Pecyn y Byd – 10 mlynedd yn cynnwys darlledu ar deledu digidol a llifo ar y we a hawliau DVD byd eang	£25.00

Newyddion
(Lleiafswm defnydd 20 eiliad)

Rhanbarthol	£4.50
Y Deyrnas Unedig	£5.00
Byd-eang	£10.00

Categorïau ac eithrio Darlledu

Copi Domestig

Ffilm	1 teitl	£30.00
	Teitlau ychwanegol	Pris ar gais
Sain		£20 am bob awr

Y Rhyngrwyd
(Lleiafswm defnydd 10 eiliad – yn arferol cyfyngir i 10 eiliad)

Addysgol – Mewnrwyd (cyfyngedig)	£3.50
Addysgol – Rhyngrwyd Byd-eang	£7.00
Masnachol	£14.00

DVD / CD-ROM Addysgol
(Lleiafswm defnydd 30 eiliad)

Cymru / Rhanbarthol	£1.75
Y Deyrnas Unedig	£3.75
Ewrop	£5.50

Benthyg copi gwylio DVD

1 teitl	£16.00
Mwy o deitlau	£7 yr un

Benthyg deunydd i ddangosiadau

DVD	£25.00
Digibeta	£40.00
Print ffilm	£80.00

DVD Treftadaeth
yn cynnwys hanes a diddordebau lleol
(Lleiafswm defnydd 30 eiliad)

Dosbarthiad Lleol	£2.50
Dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig	£5.00
Dosbarthiad yn Ewrop	£8.00
Dosbarthiad Byd-eang	£12.00